Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services University NHS Trust

# WAST Yn Cysylltu

## MAI 2024




I Gefnogi. I Wasanaethu. I Achub.

## Neges gan y Prif Weithredwr

Helo, a chroeso i rifyn mis Mai o WAST yn Cysylltu. Fis diwethaf, cynhaliodd fy nghydweithwyr yn y Tîm Gweithredol a minnau gyfres o sioeau teithiol ar gyfer ein staff a'n gwirfoddolwyr. Mae'r sioeau teithiol yn ffordd wych o ymgysylltu â chydweithwyr ledled Cymru, yn gyfle i fynegi ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac i glywed yn uniongyrchol gan y rhai a fydd yn allweddol yn ein taith drawsnewid - ein pobl. Buom yn siarad am yr angen i wrthdroi'r model gwasanaeth traddodiadol ac am ein huchelgais i fod yn 'borth' i'r gofal cywir, yn y lle iawn, bob tro. Byddwn yn dweud mwy am hyn wrth randdeiliaid yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf, ond yn y cyfamser, gallwch ddysgu mwy am ein gweledigaeth yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd gan y Bwrdd, sydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.
Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r rhanddeiliaid hynny sydd wedi cymryd rhan yn ein harchwiliad enw da yn ddiweddar. Bydd yr hyn a ddywedwch wrthym yn helpu gyda'n dull o ymgysylltu yn y dyfodol a hefyd yn llywio datblygiad pellach ein strategaeth sefydliadol.
Cynhyrchodd y stori a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar am dronau dipyn o benawdau cyfryngau. Rydym yn cydweithio â Phrifysgol Warwick a'n partneriaid yn y diwydiant SkyBound i archwilio a allai diffibrilwyr a ddanfonir â dronau wneud gwahaniaeth i rywun sy'n cael ataliad ar y galon. Mae'n un o nifer o astudiaethau rydym yn ymwneud â nhw i ddatblygu triniaethau yn y GIG, ac mae ein symudiad diweddar i statws Ymddiriedolaeth Brifysgol yn atgyfnerthu'r ymrwymiad hwnnw i ysgogi ymchwil ac arloesi. Wrth i ni geisio cryfhau ein cysylltiadau academaidd, arloesi a diwydiant, rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr Anweithredol (Academaidd) i ymuno â'n Bwrdd, yn ogystal ag Is-Gadeirydd newydd i helpu i lunio ein strategaeth, gweledigaeth, pwrpas a diwylliant. Oes gennych chi ddiddordeb? Ceir manylion llawn isod. Fel sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill, rydym yn paratoi ar gyfer nid un, ond dau Ŵyl Banc ym mis Mai. I'r rhai sy'n cadw'r olwynion i droi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, diolch am eich aberth. Os ydych chi'n ffodus i fwynhau penwythnos hir, mwynhewch un diogel. Cymerwch ofal.





**Jason Killens**
Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

## Cipolwg ar Berfformiad

### Ebrill 2024

Bu **32,984** o ddigwyddiadau 999

Mynychodd ein criwiau **4,609** o alwadau coch lle'r roedd bywyd mewn perygl uniongyrchol

Fe wnaeth ein gwasanaeth brys gludo **14,344** o bobl i'r ysbyty

Cwblhaodd ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys **48,363** o deithiau

Bu **67,829** o alwadau i GIG 111 Cymru

Mynychwyd **829** o ddigwyddiadau gan Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Gwirfoddol

Cwblhaodd ein Gwasanaeth Ceir Gwirfoddol **3,737** o deithiau

# Tu ôl i'r Penawdau



**Does dim terfyn ar gyfer diffibrilwyr a ddanfonir â drôn**
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi partneru â Phrifysgol Warwick a'i phartneriaid yn y diwydiant SkyBound i archwilio a allai diffibrilwyr a ddanfonir â dronau wneud gwahaniaeth i rywun sy'n cael ataliad ar y galon. Dywedodd yr Athro Nigel Rees, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymchwil ac Arloesedd yr Ymddiriedolaeth: “Efallai y bydd diffibrilwyr a ddarperir â drôn yn swnio fel rhywbeth o ffilm ffuglen wyddonol, ond os mai dyma'r ffordd gyflymaf o gael diffibriliwr i glaf, mae'n arf gwych yn ein locer i wella cyfraddau goroesi. “Ar hyn o bryd, nid yw gwylwyr unigol yn cael eu cyfarwyddo gan drinwyr galwadau ambiwlans i adael claf i gael diffibriliwr gerllaw, gan mai'r flaenoriaeth yw darparu cywasgiadau ar y frest. “Byddai dosbarthu diffibriliwr yn uniongyrchol iddynt yn negyddu’r angen i adael y claf, ac o bosibl yn gwella’r siawns o oroesi.” Cliciwch yma i ddarllen mwy.

**Gweithiwr ambiwlans yn darparu cymorth i Wcráin**
Teithiodd Nigel Jones, Technegydd Meddygol Brys yn Nhrefynwy, i Wcráin yn ddiweddar gyda RE:ACT, elusen ymateb brys ac argyfwng yn y DU a thramor. Dywedodd: “Roedd yn brofiad swrrealaidd. “Fe wnaethon ni gwrdd â maer un o’r dinasoedd y buon ni’n ymweld â hi, fe wnaethon ni ddysgu mewn adeiladau amrywiol, gan gynnwys byncer mewn un ardal oedd â dosbarth o tua 25 o bobl lle roeddech chi’n gallu clywed gynnau mawr y tu allan. “Fe wnaethon ni hyfforddi 110 o bobl, felly mae 110 o wirfoddolwyr bellach yn gwybod sut i ddefnyddio tourniquets a rhoi triniaeth achub bywyd, ac rydw i mor falch o hynny. “Roedd y gwirfoddolwyr yn werthfawrogol iawn o’n cymorth, ac roedd yn werth chweil.” Cliciwch yma i ddarllen mwy.





**Her ddwbl gweithiwr ambiwlans ar gyfer y Gymdeithas Alzheimer**
Bydd Laura Livall, 47, Rheolwr Rheoli Dyletswydd yng Nghwmbrân, yn neidio allan o awyren y mis hwn ac yn cymryd rhan yn ei phedwaredd Trek26 ym Mannau Brycheiniog ym mis Mehefin er cof am ei mam-gu Jean Charles. Dywedodd Laura, sydd wedi gweithio i’r Ymddiriedolaeth ers 17 mlynedd: “Dyma fydd y pedwerydd tro imi gymryd rhan yn Trek26 ym Mannau Brycheiniog, ond dwi wedi cwblhau heriau cerdded eraill, gan gynnwys y Macmillan Mighty Hikes yn Nyffryn Gwy ddwywaith a Gŵyr yn y blynyddoedd diwethaf, y ddau yn 26 milltir. “Dewisais i’r Trek26 fel digwyddiad blynyddol gan bo’ fi eisiau gwthio fy hun bob blwyddyn a chodi arian at achos oedd yn agos at fy nghalon. “Roedd fy mam-gu yn byw gyda dementia, a hi oedd fy 'siwper mam-gu’ bywyd go iawn.’ “Felly, os alla i fod bach yn siwper a gwneud fy rhan dros elusen, yna beth am fod yn fwy dewr ac ymgymryd ag awyrblymio yn ogystal â thaith gerdded? Cliciwch yma i ddarllen mwy.

**Athrawon wedi'u hanafu mewn ymosodiad â chyllell yn Rhydaman yn diolch i'r gwasanaethau brys**
Cafodd Fiona Elias, Liz Hopkin, a disgybl eu cludo i’r ysbyty gydag anafiadau a achoswyd gan gyllell, nad oeddent, diolch byth, yn bygwth bywyd. Cawson nhw i gyd eu rhyddhau o'r ysbyty erbyn y diwrnod canlynol. Nawr, mae'r ddau athro wedi siarad am eu profiad gan ddiolch i gydweithwyr a gwasanaethau brys a ddaeth i'w cynorthwyo. Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol, Fiona Elias: “O waelod fy nghalon, hoffwn i a fy nheulu ddiolch yn fawr iawn am yr holl negeseuon rydyn ni wedi’u derbyn o bell ac agos dros y dyddiau diwethaf. “Rwy’n ddiolchgar iawn i’r Heddlu, y Gwasanaeth Ambiwlans, a staff y GIG yn Nhreforys am eu gofal rhagorol a’u hymateb cyflym.” Cliciwch yma i ddarllen y stori ar Swanseabay.com.





**Mae Mind Over Mountains yn partneru â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru**
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymuno â'r elusen iechyd meddwl Mind Over Mountains, i gynnig cyfres o ddyddiau seibiant "yn ôl i natur". Mae'r fenter yn cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddelio â phwysau sy'n gysylltiedig â swydd a thrawma achlysurol. Mae’r digwyddiad nesaf wedi’i drefnu i gael ei gynnal yn ystod penwythnos gŵyl y banc mis Mai, ar odre’r olygfa o Lanberis a Dolbadarn yng Ngwynedd. Cliciwch yma i ddarllen y stori ar wefan South Wales Argus.

## Cymryd Rhan

**Cyfle: Is-gadeirydd a Chyfarwyddwr Anweithredol**
Bydd yr Is-gadeirydd yn cefnogi’r Cadeirydd ym mherfformiad y Bwrdd a’i lywodraethu effeithiol, gan gynnal gwerthoedd y GIG, a hybu hyder y cyhoedd a phartneriaid. Cliciwch yma i wneud cais. Mae penodi Cyfarwyddwr Anweithredol (Academaidd) i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn hollbwysig wrth i ni geisio cryfhau ein cysylltiadau academaidd, arloesi a diwydiant. Cliciwch yma i wneud cais.



**Ymunwch â chyfarfod Bwrdd deufisol yr Ymddiriedolaeth**
Rydym yn eich gwahodd i ymuno drwy Zoom i wrando ar uwch arweinwyr yn trafod agenda llawn eitemau, gan gynnwys adroddiadau deufisol gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, perfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth, cynllun gweithlu strategol a strategaeth ddigidol. Cliciwch yma i ddarganfod mwy.



## Ymgyrch y Mis

